## Amrywiaeth ar fyrddau cymdeithasau tai Cymru: 2021

# 1. Cyflwyniad

Mae Byrddau Cymdeithasau Tai yn cyflwyno ffurflenni blynyddol i reoleiddiwr Llywodraeth Cymru, gan adrodd ar amrywiaeth aelodau'r bwrdd. Ers 2014, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn casglu data am amryw o nodweddion gwarchodedig aelodau'r bwrdd.

Mae'r adroddiad hwn yn ceisio rhoi trosolwg o sefyllfa amrywiaeth byrddau 2021 o ran Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCCau). Mae'r adroddiad yn cyflwyno amrywiaeth ar draws blynyddoedd, gan ei osod yn erbyn amrywiaeth y boblogaeth a thenantiaid. Mae'r adroddiad yn defnyddio data amrywiaeth LCC gafodd ei gasglu gan Lywodraeth Cymru ers 2014. [1]

Cyflwynir ystadegau amrywiaeth ar gyfer y grwpiau canlynol:
• Byrddau LCC –lle mae cymdeithasau tai yn rhan o strwythur grŵp, dyma fyddai bwrdd y prif LCC fel rhan o'r strwythur
• Byrddau gan gynnwys is-fyrddau – yn cyflwyno data ar gyfer pob bwrdd, gan gynnwys rhiant fyrddau ac is-fyrddau lle mae LCC yn rhan o strwythur grŵp
• Cadeiryddion – cyflwynir data ar gyfer cadeiryddion byrddau LCC.

**Data:** Ffynhonnell y rhan fwyaf o'r boblogaeth a'r data cymharu tenantiaid cymdeithasol o Gyfrifiad 2011 (gyda sawl eithriad nodedig yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2021 sydd ar gael) ac, o'r herwydd, mae'n bosibl na fyddant yn cyflwyno darlun cyfredol o amrywiaeth poblogaeth yng Nghymru.[2]

Nid oedd data LIC ar gael ar gyfer aelodau byrddau sydd wedi cael ail-aseiniad rhywedd/aelodau traws. Disgwylir i ddata Cyfrifiad 2021 gael ei gyhoeddi tua diwedd 2022.

# 2. Ffigurau allweddol

| Grwpiau | Tueddiad 2021 | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| Menywod |  | Mae cyfran y menywod ar fyrddau cymdeithasau tai wedi cynyddu 5% yn y 7 mlynedd diwethaf sy'n duedd i'w groesawu, er nad yw hyn wedi newid llawer ers 2018. Er y newid cadarnhaol, mae menywod yn parhau i gael eu tangynrychioli ar fyrddau LCC. Mae cyfran y cadeiryddion benywaidd wedi gostwng 5% ac yn 39% ar hyn o bryd. |
| Pobl hŷn |  | Mae cynrychiolaeth o bobl dros 65 oed wedi gostwng yn gyflym yn ystod y 5 mlynedd diwethaf o blaid pobl 45- 64 oed y mae cynrychiolaeth ddwywaith yn fwy na chyfansoddiad y boblogaeth gyffredinol. Gellir gweld mwy o gynrychiolaeth o aelwydydd oedran gweithio yn duedd bositif. Er y dylai byrddau barhau i fod yn ofalus am y gallu i adlewyrchu safbwyntiau pobl dros 65 oed sy'n cynnwys traean o boblogaeth tenantiaid, mae'r grŵp hwn yn cael ei or-gynrychioli'n sylweddol ymysg cadeiryddion. |

[1] Dylid nodi nad oedd yr holl ddata amrywiaeth wedi'i gasglu ers 2014, felly mae rhai tablau yn yr adroddiad ond yn cynnwys data o flynyddoedd diweddarach.
[2] Cydnabyddir, er mwyn i gymariaethau fod yn ystyrlon ar lefel leol, y dylai sefydliadau ddefnyddio data lleol yn hytrach na chenedlaethol.

| | | |
|---|---|---|
| Pobl ieuengach | ↔ | Pobl dan 30 oed yw'r grŵp sydd wedi'i dangynrychioli fwyaf, nid yw hyn wedi newid yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Er y gall recriwtio pobl dan 30 oed sydd â lefel ddigonol o brofiad fod yn her, lle mae hyn yn bodoli gallai'r byrddau ystyried rolau dan hyfforddiant a threfniadau eraill i sicrhau bod lleisiau pobl iau yn cael eu clywed a allai hefyd fwydo i ddatblygiad doniau a chynllunio olyniaeth. |
| Pobl ddu, Asiaidd, lleiafrifoedd ethnig | ↑ Aelodau bwrdd<br>↔ cadeiryddion | Mae cyfran aelodau byrddau LCC du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (6%) ychydig yn uwch nag o fewn y boblogaeth gyffredinol (4.9%) ac mae wedi cynyddu 4% yn raddol ers 2014 sy'n duedd bositif. Mae ymchwil yn dangos bod perygl i wrthdroi'r cynnydd mewn amrywiaeth o ran hil yn gyflym a bod gwahaniaethau rhwng byrddau unigol. Mae'n bwysig felly cynnal y momentwm a gafwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf wrth ganolbwyntio ar ddiwylliannau'r cynhwysol byrddau. Roedd pob cadeirydd cymdeithas dai yn wyn, a byddai mwy o amrywiaeth ymhlith cadeiryddion yn cael eu hannog. |
| Pobl anabl | ↓ | Pobl anabl yw'r grŵp sy'n cael ei dangynrychioli fwyaf ar fyrddau cymdeithasau tai. Mae 2021 wedi gweld gostyngiad pellach yn aelodau anabl byrddau. Dim ond 8% o aelodau'r bwrdd oedd yn anabl - 10% yn is na 5 mlynedd yn ôl ac yn sylweddol is na phoblogaeth Cymru (22%) a phoblogaeth tenantiaid cymdeithasol (33%). Mae cyfran cadeiryddion byrddau LCC gyda'r isaf ers 2018 gyda dim ond 3% yn nodi eu bod yn anabl. |
| Hoyw, deurywiol, arall | ↓ | Er bod cynrychiolaeth o gyfeiriadedd rhywiol Hoyw/Deurywiol/Arall wedi gweld gostyngiad bach o 1%, mae'r grŵp hwn yn cael ei gynrychioli'n dda ar fyrddau LCC, gan gynnwys is-fyrddau ac ymhlith cadeiryddion. Bu gostyngiadd sylweddol yn nifer y rhai sy'n dewis yr opsiwn i beidio â dweud ers 2018 y gellir ei weld fel arwydd o agweddau mwy cadarnhaol tuag at rannu data sy'n gysylltiedig â chyfeiriadedd rhywiol. |
| Iaith Gymraeg | ↑ | Mae sgiliau siarad a darllen Cymraeg wedi cynyddu ymysg cadeiryddion LCC o 2 a 3 pwynt canran yn y drefn honno. Dim newid ymysg aelodau'r bwrdd. Mae APS yn dangos bod gan boblogaethau iau sgiliau Cymraeg gwell felly gallai recriwtio aelodau iau y bwrdd helpu i hybu'r Gymraeg. |

# 3. Rhywedd

## 3.1 Cipolwg


- **Mae cyfran y menywod ar fyrddau cymdeithasau tai wedi cynyddu 5% yn ystod y 7 mlynedd diwethaf sy'n duedd i'w groesawu**, er bod hyn wedi aros yr un fath ers 2018. Er y newid cadarnhaol, mae menywod yn parhau i gael eu tangynrychioli ar fyrddau LCC.

- **Mae'r darlun ar gyfer byrddau gan gynnwys is-fyrddau yn edrych yn llai cadarnhaol** gyda dim ond 39% o aelodau'r bwrdd yn fenywaidd yn 2021.

- **Bu gostyngiad yng nghynrychiolaeth y cadeiryddion benywaidd 5%** er gwaethaf cynnydd mawr y llynedd. Dim ond 2% yn uwch nag yn 2016 y mae'r gynrychiolaeth ymhlith cadeiryddion ac mae menywod yn parhau i gael eu tangynrychioli ymysg cadeiryddion o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol.

- Roedd data a gafodd ei gyflwyno yn cyfuno yr opsiwn Well gennyf beidio â dweud gydag Arall, ac felly nid oedd dadansoddiad o'r rhai sydd y tu allan i rywiau deuaidd yn bosibl.

## 3.2 Rhywedd: Byrddau LCC




Female – Benywaidd Male – Gwrywaidd Prefer not to say – Dewis peidio dweud

| Rhywedd | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | Poblogaeth[3] | Tenantiaid Cymdeithasol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Benywaidd | 38% | 39% | 42% | 43% | 43% | 42% | 43% | 43% | 51% | 54% |
| Gwrywaidd | 62% | 61% | 58% | 55% | 56% | 55% | 57% | 55% | 49% | 46% |
| Dewis peidio dweud/ Arall | | Heb nodi | Heb nodi | 0 | 1% | 1% | 0% | 2% | Heb nodi | Heb nodi |


## 3.3 Rhywedd: Byrddau gan gynnwys is-fyrddau

| Rhywedd | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|
| Benywaidd | 41% | 39% | 39% | 39% |
| Gwrywaidd | 58% | 57% | 61% | 59% |

[3] Census 2021 data

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dewis peidio dweud / Arall** | 1% | 4% | 0% | 2% |

## 3.4 Rhywedd: Cadeiryddion





| Rhywedd | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Benywaidd** | 37% | 39% | 33% | 34% | 44% | 39% |
| **Gwrywaidd** | 63% | 61% | 67% | 66% | 56% | 58% |
| **Dewis peidio dweud/ Arall** | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 3% |

# 4. Oedran

### a. Cipolwg

- Mae byrddau wedi profi newidiadau cyflym mewn cynrychiolaeth oedran.
- Mae cynrychiolaeth **o bobl dros 65 oed** wedi gostwng yn gyflym yn ystod y 5 mlynedd diwethaf o blaid **pobl 45- 64 oed** y mae cynrychiolaeth ddwywaith yn fwy na chyfansoddiad y boblogaeth gyffredinol. Gellir gweld mwy o gynrychiolaeth o aelwydydd oedran gweithio yn duedd bositif. Er y dylai byrddau barhau i fod yn ofalus am y gallu i adlewyrchu safbwyntiau dros 65 oed sy'n cynnwys traean o boblogaeth tenantiaid, mae'r grŵp hwn yn cael ei **or-gynrychioli'n sylweddol** ymysg cadeiryddion.
- **Pobl dan 30 oed** yw'r grŵp sy'n cael eu **tangynrychioli fwyaf**, nid yw hyn wedi newid yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Er y gall recriwtio pobl dan 30 oed sydd â lefel ddigonol o brofiad fod yn her, gallai'r bwrdd ystyried rolau dan hyfforddiant a threfniadau eraill i sicrhau bod lleisiau pobl iau yn cael eu clywed a gallai hefyd fwydo i ddatblygiad doniau a chynllunio olyniaeth.

## 4.2 Oedran: Byrddau LCC




| Oedran | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | Poblogaeth[4] | Tenantiaid cymdeithasol[5] |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **20-29** | 2% | 2% | 1% | 1% | 2% | 2% | 12% | 21% dan 34 |
| **30-44** | 13% | 16% | 17% | 19% | 24% | 23% | 18% | 27% 34-54 |
| **45-64** | 53% | 50% | 54% | 56% | 56% | 56% | 27% | 24% 50-64 |
| **dros 65** | 28% | 29% | 27% | 22% | 18% | 18% | 21% | 28% |
| **Dewis peidio dweud** | Dim ar gael | 2% | 1% | 2% | 1% | 3% | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

## 4.3 Oedran: byrddau gan gynnwys is-gwmnïau


Roedd tueddiadau'n debyg i'r rhai yn y prif fyrddau LCC[6]. Gweler y cipolwg uchod.

| Oedran | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | Poblogaeth | Tenantiaid cymdeithasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dan 30** | 1% | 1% | 1% | 1% | 12% | 21% under 34 |
| **30-44** | 15% | 17% | 22% | 22% | 18% | 27% 34-54 |
| **45 -64** | 56% | 58% | 58% | 57% | 27% | 24% 50-64 |
| **Dros 65** | 27% | 21% | 18% | 18% | 21% | 28% |
| **Dewis peidio dweud** | 1% | 3% | 0% | 3% | N/A | N/A |

## 4.4 Oedran: cadeiryddion

[4] Cyfrifiad 2021
[5] Cyfrifiad 2011 categorïau a data
[6] Data ond ar gael o 2018 ymlaen

O 2020 ymlaen does dim cadeiryddion o dan 30 oed - gellir esbonio hyn gan lefel y profiad sydd ei angen gan y rhan fwyaf o fyrddau. Mae cyfran y cadeiryddion rhwng 45 a 64 oed wedi gostwng 5% o blaid cynnydd o 6% mewn cadeiryddion rhwng 30-44 oed. Mae cyfran o bobl dros 65 oed yn parhau i fod yn sylweddol uwch na'r boblogaeth gyffredinol a thenantiaid cymdeithasol, ond mae ar ei isaf ers 2016.




Up to 29 – Hyd at 29 Prefer not to say – Dewis peidio dweud

| Oedran | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | Poblogaeth[7] | Tenantiaid cymdeithasol[8] |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dan 30** | 0% | 1% | 0% | 0% | 0% | 0% | 12% | 21% dan 34 |
| 30-44 | 7% | 14% | 12% | 8% | 14% | 13% | 18% | 27% 34-54 |
| 45-64 | 58% | 46% | 44% | 55% | 50% | 50% | 27% | 24% 50-64 |
| Dros 65 | 35% | 39% | 44% | 37% | 36% | 31% | 21% | 28% |
| Dewis peidio dweud | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 6% | n/a | n/a |

# 5 Hil


## 5.4 Cipolwg

- Mae cyfran aelodau byrddau LCC **du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig** (6%) ychydig yn uwch nag o fewn y boblogaeth gyffredinol (4.9%) ac mae wedi cynyddu 4% yn raddol ers 2014 sy'n **duedd bositif**. Mae ymchwil yn dangos bod perygl gwrthdroi'r cynnydd mewn amrywiaeth hiliol yn gyflym a bod gwahaniaethau rhwng byrddau unigol. Mae'n bwysig cynnal y momentwm a gafwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf wrth ganolbwyntio ar ddiwylliannau cynhwysol y byrddau. Mae ystadegau poblogaeth gymharol yn seiliedig ar sampl o boblogaeth Cymru, gan nad oedd data

[7] Cyfrifiad 2021
[8] Categorïau a data Cyfrifiad 2011

Cyfrifiad 2021 ar gael adeg ysgrifennu'r erthygl hon, felly mae angen bod yn bwyllog wrth gymharu â phoblogaeth Cymru.
- Roedd **pob cadeirydd cymdeithas dai yn wyn**, a byddai mwy o amrywiaeth ymhlith cadeiryddion yn cael ei annog.

## 5.1 Hil: Byrddau LCC




Black, Asian or minority ethnic – Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig
Prefer not to say/not declared – Dewis peidio dweud/ heb ddatgan

| Grwpiau ethnig | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | Poblogaeth[9] | Tenan Cymd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwyn** | 98% | 97% | 95% | 97% | 95% | 95% | 94% | 93% | 95% | 96% |
| **Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ehtnig[11]** | 2% | 3% | 5% | 3% | 3% | 3% | 4% | 6% | 4.9% | 4% |
| **Dewis peidio dweud/Heb ddatgan** | Heb ddatgan | Heb ddatgan | Heb ddatgan | 0% | 2% | 2% | 1% | 2% | N/A | N/A |

## 5.2 Hil: Byrddau gan gynnwys is-fyrddau

Ers 2021, mae cyfran aelodau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig byrddau wedi cynrychioli y boblogaeth gyffredinol.

[9] Mae ystadegau poblogaeth pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn y tablau hyn yn seiliedig ar [Ethnigrwydd yn ôl ardal a grŵp ethnig (llyw.cymru)] yn seiliedig ar sampl o 18,000. Nid oedd data Cyfrifiad 2021 ar gael wrth gyhoeddi.
[10] Poblogaethau tenantiaid cymdeithasol yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011 (yn debygol o fod wedi newid erbyn hyn)
[11] Mae Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig at ddibenion yr adroddiad hwn yn cyfeirio at grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ehthnig ar wahân i wyn

| Grwpiau Ethnig | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | Poblogaeth | Tenantiaid Cymdeithasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwyn** | 95% | 93% | 94% | 93% | 95% | 96% |
| **Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig** | 3% | 3% | 4% | 5% | 4.9% | 4% |
| **Dewis peidio dweud/Heb ei ddatgan** | 1% | 3% | 1% | 2% | N/A | N/A |

### 5.3 Hil: Cadeiryddion

Yn 2021 fel yn y blynyddoedd blaenorol, roedd cadeirydd pob cymdeithas dai yn wyn – llai o gynrychiolaeth ers 2018.

| Grwpiau Ethnig | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | Poblogaeth | Tenantiaid Cymdeithasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwyn** | 97% | 100% | 100% | 100% | 95% | 96% |
| **Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig** | 3% | 0% | 0% | 0% | 4.9% | 4% |
| **Dewis peidio dweud/Heb ei ddatgan** | 0% | 0% | 0% | 0% | n/a | n/a |


# 6 Anabledd

## 6.1 Cipolwg

- **Pobl anabl yw'r grŵp sy'n cael ei dangynrychioli fwyaf** ar fyrddau cymdeithasau tai. Mae 2021 wedi gweld gostyngiad pellach yn aelodau anabl y byrddau. Dim ond 8% o aelodau'r byrddau oedd yn anabl - 10% yn is na 5 mlynedd yn ôl ac yn sylweddol is na phoblogaeth Cymru (22%) a phoblogaeth tenantiaid cymdeithasol (33%).

- Mae cyfran y **cadeiryddion anabl ar fyrddau LCC ar ei isaf ers 2018** gyda dim ond 3% yn nodi eu bod yn anabl.

## 6.2 Anabledd: Byrddau LCC




Disabled – Anabl Prefer not to say – Dewis peidio dweud

| Anabledd | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | Poblogaeth | Tenantiaid Cymdeithasol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Anabl** | 18% | 19% | 17% | 11% | 9% | 8% | 22% | 33% |
| **Ddim yn anabl** | Ddim ar gael | Ddim ar gael | 80% | 81% | 89% | 90% | 78% | 67% |
| **Dewis peidio dweud** | Ddim ar gael | Ddim ar gael | 3% | 7% | 2% | 2% | N/A | N/A |

### 6.3 Anabledd: Byrddau gan gynnwys is-fyrddau

Roedd y duedd o leihau cynrychiolaeth ymhlith pobl anabl yn adlewyrchu hynny a adlewyrchir i raddau helaeth ar fyrddau LCC.

| Anabledd | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | Poblogaeth | Tenantiaid Cymdeithasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Anabl** | 16% | 11% | 9% | 9% | 22% | 33% |
| **Ddim yn anabl** | 82% | 82% | 89% | 88% | 78% | 67% |
| **Dewis peidio dweud** | 2% | 7% | 2% | 3% | N/A | N/A |

### 6.4 Anabledd: Cadeiryddion


| Anabledd | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | Poblogaeth | Tenantiaid Cymdeithasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Anabl** | 10% | 6% | 9% | 3% | 22% | 33% |
| **Ddim yn anabl** | 87% | 91% | 91% | 94% | 78% | 67% |
| **Dewis peidio dweud** | 3% | 3% | 0% | 3% | N/A | N/A |

## 7 Cyfeiriadedd rhywiol

### 7.1 Cipolwg

- Er bod cynrychiolaeth o gyfeiriadedd rhywiol Hoyw/Deurywiol/Arall wedi gweld gostyngiad bach, **mae'r grŵp hwn yn cael ei gynrychioli'n dda** ar fyrddau LCC, a byrddau eraill gan gynnwys is-fyrddau ac ymhlith cadeiryddion.
- Bu gostyngiad sylweddol yn **nifer y rhai sy'n dewis yr opsiwn Dewis peidio dweud** ers 2018 y gellir ei weld fel arwydd o agweddau mwy cadarnhaol tuag at rannu data sy'n gysylltiedig â chyfeiriadedd rhywiol.

### 7.2 Cyfeiriadedd rhywiol: Byrddau LCC




| Cyfeiriadedd Rhywiol | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | Poblogaeth[12] | Tenantiaid Cymdeithasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Hoyw/Deurywiol/Arall** | 4% | 5% | 6% | 5% | 3.2% | Ddim yn gwybod |
| **Heterorywiol/Stret** | 85% | 87% | 91% | 91% | 95.2% | Ddim yn gwybod |
| **Dewis peidio dweud** | 10% | 8% | 3% | 4% | 1.6% | Ddim yn gwybod |

### 7.3 Cyfeiriadedd rhywiol: Byrddau i gynnwys is-fyrddau

Mae tueddiadau amrywiaeth ar gyfer byrddau gan gynnwys is-fyrddau yn debyg yn fras i'r gynrychiolaeth ar fyrddau LCC.

| Cyfeiriadedd Rhywiol | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | Poblogaeth | Tenantiaid Cymdeithasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Hoyw/Deurywiol/Arall** | 4% | 5% | 5% | 5% | 3.2% | Ddim yn gwybod |
| **Heterorywiol/Stret** | 87% | 86% | 90% | 90% | 95.2% | Ddim yn gwybod |
| **Dewis peidio dweud** | 9% | 9% | 5% | 5% | 1.6% | Ddim yn gwybod |

### 7.4 Cyfeiriadedd rhywiol: Cadeiryddion

[12] Yn seiliedig ar Hunaniaeth rywiol yn ôl flwyddyn (llyw.cymru) (dros 16 mlwydd oed). Tebygol nad yw yn gywir bellach. Data Cyfrifiad 2021 ddim ar gael ar amser cyhoeddi.

Mae cyfeiriadedd rhywiol Hoyw/Deurywiol/Arall yn cael ei gynrychioli'n dda ymhlith cadeiryddion.

| Cyfeiriadedd Rhywiol | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | Poblogaeth | Tenantiaid Cymdeithasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Hoyw/Deurywiol/Arall** | 3% | 3% | 6% | 6% | 3.2% | Ddim yn gwybod |
| **Heterorywiol/Stret** | 97% | 92% | 94% | 92% | 95.2% | Ddim yn gwybod |
| **Dewis peidio dweud** | 0% | 5% | 0% | 3% | 1.6% | Ddim yn gwybod |

## 8 Iaith Gymraeg

### 8.1 Cyflwyniad

Cyflwynir data 2021 o Arolwg Poblogaeth Blynyddol Cymru (APS) isod. Bydd darllenwyr yn gweld fodd bynnag nad yw hyn yn cael ei ddadansoddi yn ol lefel sgiliau iaith. Mae data'r bwrdd sy'n cael ei gyflwyno i'r rheoleiddiwr, yn dadansoddi sgiliau mewn lefelau. At ddibenion yr adroddiad hwn, rydym wedi grwpio unrhyw allu i siarad neu ddarllen Cymraeg o dan un categori: "meddu ar sgil" er ei fod yn cael ei gydnabod y gall rhai sgiliau fod yn sylfaenol iawn. Rydym wedi cymharu hyn yn erbyn y data APS sydd ar gael ar gyfer pobl dros 25 oed.

**Data Arolwg Poblogaeth Blynyddol**

**Siarad**
• Pobl 25–64 oed – 29.5% yn gallu siarad Cymraeg (heb wahaniaethau mawr rhwng grwpiau oedran)
• Pobl 16 – 24 oed – 42.3% yn medru siarad Cymraeg

**Darllen**
• Pobl ifanc 25–64 oed – 25.9% yn gallu darllen Cymraeg (gyda gwahaniaethau bychan rhwng grwpiau oedran – yr hynaf ydych chi, llai o allu i ddarllen Cymraeg)
• 16 – 24 oed – 39.3% yn gallu darllen Cymraeg

### 7.2. Sgiliau yn y Gymraeg: Canfyddiadau

• Mae sgiliau siarad a darllen Cymraeg wedi cynyddu ymysg cadeiryddion LCC o 2 a 3 pwynt canran yn y drefn honno. Dim newid ymysg aelodau'r bwrdd.
• Mae gan fwy o aelodau a chadeiryddion y bwrdd sgiliau siarad Cymraeg o'i gymharu â'r boblogaeth
• Mae gan lawer o aelodau a chadeiryddion y bwrdd sgiliau darllen yn y Gymraeg o'i gymharu â'r boblogaeth
• Mae gan ychydig yn fwy o gadeiryddion nag aelodau byrddau sgiliau Cymraeg
• Mae Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn dangos mai yr ieuengaf yw grŵp y boblogaeth, gorau'n y byd yw eu gallu i ddarllen neu siarad Cymraeg. Gallai recriwtio aelodau bwrdd iau gynyddu Sgiliau Cymraeg byrddau.

**Byrddau LCC**

| 2020 | Sgiliau | Poblogaeth | Dim sgiliau | Poblogaeth |
|---|---|---|---|---|
| **Siarad** | 34% | 29.5% | 66% | 70.5% |
| **Darllen** | 41% | 25.9% | 59% | 74.1% |

| 2021 | Sgiliau | Poblogaeth | Dim sgiliau | Poblogaeth |
|---|---|---|---|---|
| **Siarad** | 34% | 29.5% | 66% | 70.5% |
| **Darllen** | 40% | 25.9% | 59% | 74.1% |

Cadeiryddion LCC

| 2020 | Sgiliau | Poblogaeth | Dim sgiliau | Poblogaeth |
|---|---|---|---|---|
| **Siarad** | 36% | 29.5% | 64% | 70.5% |
| **Darllen** | 44% | 25.9% | 56% | 74.1% |

| 2021 | Sgiliau | Poblogaeth | Dim sgiliau | Poblogaeth |
|---|---|---|---|---|
| **Siarad** | 38% | 29.5% | 62% | 70.5% |
| **Darllen** | 47% | 25.9% | 53% | 74.1% |

Mae canlyniadau mwy manwl o ran lefel sgiliau ar gyfer byrddau a chadeiryddion i'w cael yn Atodiad 1.

## 9 Ystyriaeth Bellach

Mae ffurflenni amrywiaeth ar gyfer aelodau'r bwrdd yn dangos datblygiadau cadarnhaol ar gyfer rhai grwpiau amrywiaeth tra bod eraill yn dal i gael eu tangynrychioli ar fyrddau cymdeithasau tai. Mae datblygiadau cadarnhaol yn cynnwys:

- Cynnydd mewn cynrychiolaeth hiliol ymhlith aelodau'r bwrdd
- Cynnydd mewn sgiliau yn y Gymraeg ymhlith cadeiryddion
- Cynnydd mewn cynrychiolaeth o bobl o oedran gweithio ar y bwrdd ac mewn swyddi cadeiryddion

Mae'r tangynrychioli mwyaf arwyddocaol wedi'i nodi ymhlith y grwpiau canlynol:

- Anabledd: dyma'r grŵp sydd wedi'i dangynrychioli fwyaf sylweddol gyda chyfran dair gwaith yn is na chyfran ymhlith tenantiaid
- Cadeiryddion benywaidd: Mae cyfran y cadeiryddion benywaidd wedi gostwng 5% ac ar 39%.
- Hil: Nid oes cadeiryddion Du, Asiaidd na lleiafrifoedd ethnig.

Mae Safon Rheoleiddio (RS)1c) yn ei gwneud yn ofynnol i LCCau osod a darparu ymrwymiadau mesuradwy, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws pob maes o'u busnes mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (gan gynnwys gwrth-hiliaeth a mynd i'r afael â throseddau casineb), gan adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau y maent yn gweithio ynddynt a gyda nhw.  Mae RS1d) yn ei gwneud yn ofynnol i LCCau gael Byrddau amrywiol, gan adlewyrchu'r cymunedau y mae'r LCC yn gweithio ynddynt a gyda hwy, ac bod ganddo'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i fod yn effeithiol.

Mae gan Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Cymru (REAP) nod *"i gynyddu'n sylweddol gynrychiolaeth o bobl o leiafrifoedd ethnig mewn arweinyddiaeth uwch ac ar bob*

*lefel o'r gweithlu o fewn y sector Tai, fel eu bod yn adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth y maent yn gweithredu o fewn iddynt".*

**Gallai'r argymhellion canlynol helpu byrddau i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth ar eu byrddau a darparu tystiolaeth ddefnyddiol wrth ddangos cydymffurfiaeth â'r safonau rheoleiddio a chynnydd i gyrraedd y nod REAP.**

1. Dylai byrddau adolygu a chyhoeddi eu data amrywiaeth yn flynyddol, gan gynnwys cymharu â'r boblogaeth leol a data poblogaeth tenantiaid a chamau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â thangynrychioli.
2. Dylai byrddau gynnal y momentwm a gafwyd mewn perthynas â chynyddu amrywiaeth hiliol, yn benodol drwy ganolbwyntio ar ddiwylliannau'r cynhwysol y bwrdd i sicrhau cynaliadwyedd canlyniadau cadarnhaol.
3. Dylai byrddau gymryd camau priodol gyda'r nod o gynyddu amrywiaeth y bwrdd yn y grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli fwyaf yn ôl eu data. Bydd byrddau unigol yn penderfynu ar y camau y dylent eu cymryd ond gallai'r rhain gynnwys, gosod tystiolaeth, targedau mesuradwy, cynyddu'r gronfa o ymgeiswyr amrywiol drwy **Llwybr i'r Bwrdd** neu **Step to Non Exec**, hyfforddi holl aelodau'r bwrdd, uwch arweinwyr a phaneli recriwtio mewn rhagfarn anymwybodol gan ddatblygu mentrau gweithredu positif sydd â'r nod o gynyddu nifer yr aelodau amrywiol o'r byrddau, darparu cyfleoedd hyfforddi a chysgodi aelodau iau neu aelodau amrywiol eraill o'r bwrdd.


4. Gall byrddau hefyd ystyried mabwysiadu neu ddefnyddio adnoddau sydd ar gael i wella cydraddoldeb ac amrywiaeth gan gynnwys, er enghraifft, **Gwirio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Byrddau gan Tai Pawb**, **Addewid Gweithredoedd nid Geiriau neu Wobr QED**, **Zero Racism Cymru**, **The Race Code**, **Equal Power Equal Voice**, a mentrau eraill sydd â'r nod o gynyddu amrywiaeth.


*Dadansoddiad ac adroddiad gafodd ei baratoi ar gyfer Llywodraeth Cymru gan Tai Pawb, Gorffennaf 2022. Diweddarwyd Medi 2022 gan Lywodraeth Cymru ar sail data a ddarparwyd i dîm rheoleiddio Llywodraeth Cymru.*


*Hoffai Llywodraeth Cymru a Tai Pawb ddiolch i interniaid Tai Pawb, Isobel Crocker a Rebecca Hubbard, oedd yn allweddol wrth gyflawni'r gwaith hwn.*

Atodiad 1


Sgiliau yn y Gymraeg ar y byrddau, wedi'u dadansoddi yn ôl lefel y sgiliau.






Can converse in most board-related conversations – Yn gallu siarad yn rhan fwyaf y sgyrsiau am y bwrdd
Can converse in some board-relaed conversations – Yn gallu siarad yn rhai o'r sgyrsiau am y bwrdd
Can converse in simple board-realed conversations – Yn gallu siarad mewn sgyrsiau syml am y bwrdd
Can hold a bsic conversation in Welsh – Yn gallu cynnal sgwrs sylfaenol yn y Gymraeg
No skills – Dim sgiliau




Full understanding of all work-related material – Yn deall pob deunydd gwaith yn llawn

Can read most work-related material – Yn gallu darllen rhan fwyaf y deunyddiau gwaith

Can read some soutine work-related material with support e.g. dictionary – Yn gallu darllen rhywfaint o'r deunydd arferol yn gysylltiedig â gwaith

Can read simple material on everyday topics with understanding – Yn gallu darllen a deall deunydd syml ar bynciau bob dydd

Can read some basic words and phrases with understanding – Yn gallu darllen a deall rhai geiriau a dywediadau syml

No skills – Dim sgiliau